

BDPCT

BWRDD
DIOGELU PLANT CWM TAF

CTSCB

CWM TAF
SAFEGUARDING CHILDREN BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL ANNUAL PLAN

2017 - 2018



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf
University Health Board



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TRETTADAETH GADARN | DYFODOL SICR



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL



Gwasanaeth Prawf
Cenedlaethol
National Probation
Service



Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Cymru
Wales
Community Rehabilitation Company



VOLUNTARY
ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU
GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL



CYFLWYNIAD

Mae Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (BDPCT) yn bartneriaeth amlasiantaeth sy'n gyfrifol am ddiogelu plant yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Mae BDPCT yn gweithredu o fewn y canllawiau statudol sydd wedi'u nodi yn Adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, bydd y BDPCT yn rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae BDPCT yn monitro pa mor effeithiol yw gwaith asiantaethau a phartneriaethau eraill o ran diogelu plant ac yn sicrhau bod diogelu wedi'i wreiddio yn yr holl arferion gweithio.

Bydd y BDPCT yn cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol yma ar ei wefan, sef www.cwmtafsafeguarding.org, erbyn 31 Mawrth 2017.

EIN GWELEDIGAETH

Sicrhau bod plant a phobl ifainc yng Nghwm Taf, hyd at 18 oed, yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac nad ydyn nhw mewn perygl o hynny, a'u bod nhw'n byw mewn amgylchedd sy'n hybu eu lles.

Bydd Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf yn gweithio o fewn ethos y Prosiect Llais a Rheolaeth gan ymgysylltu â phlant a phobl ifainc a chlywed eu barn.

Giovanni Isingrini (Cyd-gadeirydd)
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Cyngor Rhondda Cynon Taf

Lisa Curtis-Jones (Cyd-gadeirydd)
Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol)
Cyngor Merthyr Tudful

BETH YW DIOGELU?

Mae diogelu yn golygu amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso ac addysgu'r rhai sydd o'u cwmpas nhw i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.

Dyma restr o enghreifftiau (sydd ddim yn gynhwysfawr) ar gyfer pob un o'r categorïau o gam-drin ac esgeuluso:

- cam-drin corfforol - pan fydd oedolyn yn brifo plentyn yn fwriadol
- cam-drin rhywiol - pan fydd plentyn, er enghraifft, yn cael ei orfodi i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol neu rai sy'n ymwneud â ffotograffau anweddus
- cam-drin emosiynol - pan fydd plentyn, er enghraifft, yn cael y bai ar gam, neu pan fydd rhywun yn dweud ei fod yn dwp ac yn gwneud iddo deimlo'n anhapus.
- esgeuluso - methiant i ddiwallu anghenion sylfaenol plentyn, sy'n debygol o arwain at amhariad ar ei les
- bwlio - galw enwau, difrodi eiddo, dwyn, cario clecs, seiberfwlio
- trais domestig - pan fydd oedolyn mewn teulu (neu mewn perthynas) yn bygwth, yn bwlio neu'n niweidio aelod arall o'r teulu
- cam-drin ariannol - pan fydd rhiant neu gynhaliwr (gofalwr) yn defnyddio etifeddiaeth neu iawndal plentyn mewn ffordd nad yw'n cyfrannu at les y plentyn

Un o egwyddorion pwysicaf diogelu yw mai cyfrifoldeb pawb ydyw. Rhaid i bob gweithiwr a sefydliad proffesiynol wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant sydd mewn perygl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin.

Mae plentyn sydd mewn perygl yn blentyn sy'n:

- a) cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'n cael ei niweidio mewn unrhyw ffordd arall (neu mewn perygl o hynny) ac sydd
- b) ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio).

Dyma amcanion y Bwrdd Diogelu Plant:

- a) amddiffyn/diogelu plant yng Nghwm Taf sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill, neu sydd mewn perygl o hynny, ac
- b) atal plant yng Nghwm Taf rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio mewn ffyrdd eraill.

AELODAETH O FWRDD DIOGELU PLANT CWM TAF

Y partner sy'n arwain BDPCT yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT). Caiff y BDPCT ei gadeirio ar y cyd gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) a Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful).

Mae aelodaeth o'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi o dan Ran 7 Adran 134(2) o'r Ddeddf fel a ganlyn:

AELODAETH O FWRDD DIOGELU PLANT CWM TAF	
Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant (RhCT) - Cyd-gadeirydd	Cyngor Rhondda Cynon Taf Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Rhondda Cynon Taf, CF40 2XX
Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol (Merthyr Tudful) - Cyd-gadeirydd	Cyngor Merthyr Tudful Uned 5, Pentre-bach Merthyr Tudful, CF48 4TQ
Pennaeth Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Pencadlys y Bwrdd Iechyd Lleol, Tŷ Ynysmeurig Abercynon, CF45 4SN
Pennaeth Gwasanaethau i Blant (Cyngor MT)	Cyngor Merthyr Tudful Uned 5, Pentre-bach Merthyr Tudful, CF48 4TQ
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Pencadlys y Bwrdd Iechyd Lleol Tŷ Ynysmeurig, Abercynon, CF45 4SN
Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru Gorsaf Heddlu Pontypridd, Berw Road, Pontypridd, CF37 2TR
Prif Weithredwr Cynorthwyol	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol 4-9 Broadway Pontypridd, CF37 1BA
Prif Weithredwr Cynorthwyol	De Cymru 2, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Swyddfa Prawf Pen-y-bont ar Ogwr, Tŷ Tremains, Tremains Road, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1TZ
Prif Swyddog	Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT), Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 88-90 High Street, Pontmorlais, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Rheolwr Busnes BDCT	Tŷ Catrin, Ystad Ddiwydiannol Hen Lofa'r Maritime Maes-y-coed Pontypridd, CF37 1NY
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Oedolion (Cyngor RhCT)	Cyngor Rhondda Cynon Taf Tŷ Elái, Dwyrain Dinas Isaf, Trewiliam, Tonypandy, CF40 1NY
Pennaeth Materion Diogelu a Chymorth (Cyngor RhCT)	Tŷ Catrin, Ystad Ddiwydiannol Hen Lofa'r Maritime, Maes-y-coed, Pontypridd, CF37 1NY
Prif Reolwr Diogelu	Cyngor Merthyr Tudful Uned 5, Pentre-bach

AELODAETH O FWRDD DIOGELU PLANT CWM TAF	
	Merthyr Tudful, CF48 4TQ
Pennaeth Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf	Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Uned 2 Fairway Court Ton-teg Road Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, CF37 5UA
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cyngor RhCT)	Cyngor Rhondda Cynon Taf Tŷ Trevithick Abercynon, CF45 4UQ
Pennaeth Gwasanaeth - Dysgu (Cyngor MT)	Cyngor Merthyr Tudful, Uned 5, Parc Busnes Triangl, Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ
Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant (Cyngor RhCT)	Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Gofal yn y Gymuned a Phlant (Cyngor RhCT)	Gwasanaethau Cyfreithiol Rhondda Cynon Taf Prif Swyddfa Taf-elái Court House Street Pontypridd
Cyfarwyddwr / Cadeirydd Interlink	TEDS (Gwasanaethau Triniaeth ac Addysg Cyffuriau), Engine House, Depot Road, Aberdâr, CF44 8DL
Nyrs Dynodedig ar gyfer Diogelu Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal	Iechyd Cyhoeddus Cymru Uned 1 Charnwood Court Heol Billingsley Parc Nantgarw Caerdydd, CF15 7QZ.
Gweithiwr Proffesiynol Penodol ar gyfer Diogelu	Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru Tŷ Conwy Llawr 1af, Castle Court Ffordd y Ffenics Abertawe, SA7 9LA
Adfywio Prif Swyddog Cymunedol	CBS Merthyr Tudful Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 9AN

STRWYTHUR BWRDD DIOGELU PLANT CWM TAF

Mae gan Fwrdd Diogelu Plant Cwm Taf strwythur pwyllgorau ac is-grwpiau ar waith i helpu i gyflawni ei amcanion a'i swyddogaethau yn effeithiol. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar ei gyfrifoldeb cyffredinol o osod y cyfeiriad strategol ar gyfer ei asiantaethau partner a'u herio nhw ar effeithiolrwydd y mesurau diogelu.

Dyma gyfrifoldebau pob is-grŵp yn unigol:

Pwyllgor Gweithredol Plant - allweddol i effeithiolrwydd cyffredinol BDPCT. Wrth ddarparu'r Cynllun Blynyddol yma, bydd y Pwyllgor Gweithredol yn sicrhau bod blaenoriaethau'r Bwrdd, a gwaith yr is-grwpiau, yn cael eu symud yn eu blaen, a bod y cyflawniad yn cael ei reoli.

IS-GRWPIAU

Is-grŵp Sicrhau Ansawdd a Safonau - annog safonau uchel o ran arfer drwy archwilio, monitro a gwerthuso cyflawniad ac adolygu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan asiantaethau partner i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ar draws Cwm Taf.

Grŵp Adolygu Achosion - sicrhau bod BDPCT yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o ddysgu amlasiantaeth a rhannu'r dysgu hwnnw yn fwy effeithiol. Mae'r Grŵp hefyd yn sicrhau bod cynlluniau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau yn cael eu monitro a'u gweithredu.¹

GRWPIAU AR Y CYD

Is-grŵp Protocolau a Gweithdrefnau (PPG) - Grŵp Plant ac Oedolion ar y cyd yw hwn, sy'n gyfrifol am ddatblygu, adolygu a diweddarau polisïau, protocolau a gweithdrefnau i gydlynu'r hyn sy'n cael ei wneud gan bob corff cynrychiadol i ddiogelu plant ac oedolion.

Is-grŵp Hyfforddiant a Chyfathrebu (TAL) - â chyfrifoldeb dros sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn cael ei gydlynu, a'i fod e bob amser o safon uchel, a bod proses yn bodoli sy'n gwerthuso effeithiolrwydd yr hyfforddiant.

Is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogiad a Chyfathrebu (EPC) - yn sicrhau bod prosesau clir ar gyfer nodi anghenion ymgysylltu a chyfranogiad yn ogystal â sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arfer da.

GRWPIAU GORCHWYL

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) - mae'r grŵp yma wedi cael ei sefydlu i oruchwylio Cynllun Gweithredu Rhanbarthol y Bwrdd i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant.²

HWB DIOGELU AMLASIANTAETH CWM TAF

¹ Bydd Adolygiad Ymarfer Plant yn cael ei gynnal ar ôl i blentyn farw neu gael ei anafu'n ddifrifol, a thybir mai cam-drin neu esgeuluso sy'n gyfrifol

² Math o gam-drin rhywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae plant sydd mewn sefyllfaoedd a pherthnasau peryglus yn derbyn rhoddion, arian neu anwyldeb (er enghraifft) am gyflawni gweithgareddau rhywiol neu am adael i eraill berfformio gweithgareddau rhywiol arnyn nhw

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf yw man cysylltu cyntaf pob gweithiwr proffesiynol ar gyfer rhoi gwybod am bryderon diogelu ym Merthyr Tudful a RhCT.

Ers iddo gael ei sefydlu yn 2015, mae'r Hwb wedi gwella rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn sylweddol, gan helpu i amddiffyn y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed rhag niwed, esgeuluso a cham-drin.

Mae'r Hwb yn derbyn pryderon diogelu yn uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol megis athrawon, meddygon a'r Heddlu, a chan aelodau o'r cyhoedd ac o deuluoedd hefyd drwy ganolfannau cyswllt Cyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr Tudful.

Mae trefniadau llywodraethu'r Hwb yn rhan o strwythur y Byrddau Diogelu. Mae Bwrdd Gweithredol yr Hwb yn goruchwyllo ei ddatblygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei nod o wella diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifainc ac oedolion sydd mewn perygl. Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan Bwyllgor Gweithredol a gweithgor, ac mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr partner priodol o holl asiantaethau'r Hwb.

UNED BUSNES BWRDD DIOGELU CWM TAF

Mae gwaith y Byrddau Plant ac Oedolion a'r Hwb Diogelu yn cael ei gefnogi gan yr Uned Busnes Diogelu sy'n sicrhau bod y Byrddau yn cyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol. Mae'r garfan yn sicrhau bod y gwaith cyffredinol mewn perthynas â swyddogaethau craidd y Byrddau yn mynd yn ei flaen ac mae'n darparu cymorth gweinyddol a threfniadol ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phwyllgorau, is-grwpiau a grwpiau gorchwyl y Byrddau.

PA DDEILLIANNAU RYDYN NI AM EU CYFLAWNI ELENI?

Dyma'r deilliannau mwyaf pwysig y mae BDPCT wedi'u nodi, a fydd yn ei gynorthwyo i gyflawni'i amcanion dros y flwyddyn nesaf:

1. LLYWODRAETHU

BWRIAD YN Y PEN DRAW:

Mae'r Bwrdd â strwythur cadarn a threfniadau llywodraethu clir ar waith, sy'n cefnogi ei weithredu'n effeithiol a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU?

Mae'r Ddeddf yn pennu swyddogaethau craidd y Bwrdd. Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r swyddogaethau yma, mae rhaid bod strwythur cadarn ar waith. Mae pob partner Bwrdd Diogelu â chyfrifoldeb i sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei weithredu'n effeithiol.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gydlynw gweithgareddau ei holl bartneriaid mewn perthynas ag amddiffyn ac atal cam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed i blant, ac i sicrhau effeithiolrwydd y gweithgareddau hynny.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

- Mae gan y Bwrdd strwythur clir ar waith ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau a rhoi adroddiad ar ei effeithiolrwydd.
- Caiff risgiau eu nodi a'u rheoli'n briodol.
- Mae'r Uned Busnes Diogelu wedi cael ei sefydlu i gefnogi gweithrediad effeithiol y Bwrdd.
- Mae gwaith y Bwrdd yn seiliedig ar amrywiaeth o brotocolau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol.

PA WELLIANNAU SYDD ANGEN I NI'U GWNEUD?

Yn 2017/18, byddwn ni'n:

- 1.1. Sicrhau bod strwythur y Bwrdd yn gynaliadwy ac yn parhau i fod yn effeithiol trwy baratoi adroddiadau cyflawni rheolaidd a thrwy herio'r asiantaethau partner yn effeithiol
- 1.2. Adolygu gallu'r Uned Busnes fel ei fod â digon o adnoddau i gefnogi swyddogaethau statudol y Bwrdd
- 1.3. Gweithio gyda'r Grŵp Llywio ar faterion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i sicrhau bod y partneriaid yn cyflawni'u dyletswyddau statudol o dan Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015³
- 1.4. Sicrhau bod canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar Drin Achosion Unigol yn cael ei integreiddio i arferion diogelu
- 1.5. Cyfrannu at waith Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁴ ac Aseiad o Anghenion Poblogaeth Cwm Taf er mwyn gwella arfer diogelu
- 1.6. Ystyried beth fydd y fframwaith rheoleiddio ac arolygu newydd yn ei olygu i'r gwasanaethau cymdeithasol

2. DIOGELU GRWPYAU PENODOL O BLANT A PHOBL IFAINC

BWRIAD YN Y PEN DRAW:

Mae'r Bwrdd yn rhagweld ac yn nodi lle y gall fod grwpiau penodol o blant a phobl ifainc sydd mewn perygl o gam-drin sydd angen cael eu diogelu a gweithio gyda darparwyr gwasanaethau er mwyn datblygu trefnau adnabod a nodi cynharach a gwasanaethau ataliol.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU?

Cyfrifoldeb pawb yw cadw plant a phobl ifainc yn ddiogel. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel gyda'r bobl maen nhw'n byw gyda nhw sydd yn eu cefnogi ac yn gofalu amdany nhw, yn ogystal â bod yn ddiogel mewn

³ Mae'r Ddeddf yn ceisio ymateb cyfunol sector cyhoeddus gwell, arweinyddiaeth gryfach a ffocws mwy cyson ar y ffordd rydyn ni'n mynd i'r afael â'r materion yma yng Nghymru ac yn bwysicach na hynny, atal y cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf.

⁴ Nod Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

amgylcheddau y tu allan i'r cartref lle maen nhw'n byw, teithio, chwarae, dysgu, gweithio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol, hamdden ac ati.

Cyfrifoldeb y teulu / cynhalwyr yw hyn yn bennaf, a'r gymuned ehangach. Serch hynny, mae grwpiau o blant sy'n arbennig o agored i niwed, efallai oherwydd eu hymddygiad eu hunain neu o ganlyniad i rianta diffygiol. Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod ymateb cymesur yn cael ei fabwysiadu i ddiogelu'r grwpiau yma o bobl ifainc a bod camau gweithredu ar waith er mwyn eu hatal rhag cael eu peryglu o gam-drin, esgeuluso neu niwed ymhellach.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

Yn 2016/17 penododd y Bwrdd aelodau unigol i hyrwyddo meysydd penodol o berygl. Dyma nhw:

- Plant sy'n agored i esgeulustod
- Plant sy'n derbyn gofal⁵ ▪
- Plant sydd mewn perygl o hunanladdiad a hunan-niwed
- Plant sydd mewn perygl o gam-fanteisio rhywiol

PA WELLIANNAU SYDD ANGEN I NI'U GWNEUD?

Yn 2017/18, byddwn ni'n:

- 1.1. Gweithio gyda'r bartneriaeth Law yn Llaw at lechyd Meddwl i gefnogi plant a phobl ifainc sydd ag anghenion iechyd meddwl ac emosiynol
- 1.2. Rhannu'r hyn a gafodd ei ddysgu mewn Adolygiadau Ymarfer i sicrhau bod tyfu'n oedolyn yn cael ei reoli'n fwy effeithiol i leihau'r risg o niwed.
- 1.3. Datblygu proses ar gyfer rheoli lleoli plant sy'n derbyn gofal y tu allan i Gwm Taf ac ar gyfer y rhai sy'n cael eu lleoli yng Nghwm Taf o'r tu allan.
- 1.4. Parhau â'r camau gweithredu i fynd i'r afael â Chamfanteisio Rhywiol, gan gynnwys nodi'r cysylltiadau â masnachu pobl, ceiswyr lloches heb gwmni a chaethwasiaeth fodern
- 1.5. Ystyried canlyniad y gwaith cenedlaethol ar esgeuluso a mabwysiadu unrhyw argymhellion ar gyfer y Bwrdd
- 1.6. Sicrhau bod holl adroddiadau, protocolau a pholisïau newydd y Bwrdd yn destun Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

2. CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

BWRIAD YN Y PEN DRAW:

Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â chymunedau yn rhagweithiol ac mae pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU?

Mae angen i'r Bwrdd ddatblygu perthnasau a meithrin ymddiriedaeth o fewn y gymuned, gan godi ymwybyddiaeth o'r angen i ddiogelu plant a phobl ifainc a'u hatal rhag cael eu cam-drin a'u niweidio.

⁵ Mae'r term 'plant sy'n derbyn gofal' yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i olygu'r plant hynny sy'n cael eu gwarchod gan yr awdurdod lleol

Rhaid rhoi'r cyfle i'r plant a'r bobl ifainc hynny sy'n cael eu heffeithio gan arferion y Bwrdd Diogelu (neu a all gael eu heffeithio), i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd. Rhaid i'r Bwrdd weithio o fewn ethos y prosiect Llais a Rheolaeth i gynorthwyo pobl i gyflawni'r deilliannau maen nhw eu hunain wedi'u pennu.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

- Yn ddiweddar, sefydlodd y Bwrdd Is-grŵp Ymgysylltu, Cyfranogiad a Chyfathrebu sy'n goruchwylio datblygiad strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- Mae gwefan y Byrddau Diogelu wedi hen ennill ei phlwyf
- Mae E-fwletin ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn
- Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Wythnos Diogelu 2017, yn dilyn llwyddiant y ddwy flynedd flaenorol.

PA WELLIANNAU SYDD ANGEN I NI'U GWNEUD?

Yn 2017/18, byddwn ni'n:

- 2.1. Rhoi strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bwrdd ar waith
- 2.2. Rhoi cydran 'Cyfranogiad' strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Bwrdd ar waith er mwyn gwella ein hymgysylltiad â phlant a phobl ifainc
- 2.3. Datblygu gwefan y Bwrdd ymhellach a pharhau i gyhoeddi'r E-fwletin ar gyfer ymarferwyr, gan ystyried paratoi hyn ar gyfer y cyhoedd
- 2.4. Defnyddio Wythnos Diogelu 2017 i wella ein hymgysylltu â'r gymuned ehangach, plant, pobl ifainc a rhieni/cynhalwyr ymhellach.
- 2.5. Sicrhau bod cysylltiad clir rhwng y Byrddau a'r sefydliadau gwirfoddol sydd yng nghronfa ddata DEWIS
- 2.6. Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar gyfer y cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu a gwaith y Bwrdd

3. ARFERION DIOGELU

BWRIAD YN Y PEN DRAW:

Mae'r Bwrdd yn cael ei sicrhau bod arferion a gweithdrefnau effeithiol amlasiantaeth yn cael eu gweithredu, sydd wedi'u cefnogi gan systemau sicrhau ansawdd a rhannu gwybodaeth cadarn.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU?

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gydlyn gweithgareddau pob partner sy'n cael ei gynrychioli ganddo mewn perthynas ag amddiffyn ac atal cam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed i blant a phobl ifainc. Rhaid iddo sicrhau bod y gweithgareddau yma'n effeithiol trwy herio asiantaethau a sicrhau bod cydweithredu rhyngasiantaethol effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau amddiffyn a rhannu gwybodaeth.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

- Mae'r holl asiantaethau partner sy'n cael eu cynrychioli gan y Bwrdd â chyfrifoldebau diogelu plant.

- Mae protocolau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer trosglwyddo materion i'r Bwrdd.
- Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod systemau digonol ar waith i alluogi rhannu gwybodaeth diogelu yn effeithiol ymhlith yr holl asiantaethau.
- Mae protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth ar waith ar gyfer yr Hwb Diogelu.
- Bydd System Wybodaeth newydd ar gyfer gofal cymdeithasol a rhai elfennau o'r GIG yn cael ei chyflwyno erbyn diwedd 2017.
- Mae Grŵp Sicrhau Ansawdd y Bwrdd yn monitro, archwilio ac yn sicrhau ansawdd effeithiolrwydd gwaith sefydliadau ac unigolion lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

PA WELLIANNAU SYDD ANGEN I NI'U GWNEUD?

Yn 2017/18, byddwn ni'n:

- Nodi sut y bydd modiwl diogelu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru⁶ yn cysylltu â llywodraethu'r Bwrdd a sicrhau bod proses yn ei lle i reoli hyn
- 2.1. Gweithredu'r protocol Achosion Heriol ar gyfer plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a'i fonitro drwy'r Is-grŵp Sicrhau Ansawdd (QASG)
 - 2.2. Dylanwadu ar weithredu'r gweithdrefnau cenedlaethol newydd ar gyfer amddiffyn plant
 - 2.3. Rhannu deiliant gwaith sicrhau ansawdd y Bwrdd gyda phartneriaid, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ym maes diogelu oedolion, er mwyn rhannu arfer da

4a. Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

- Nododd gwerthusiad o'r Hwb, yn dilyn ei flwyddyn gyntaf o weithredu, yr angen i adolygu'r prosesau presennol i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant ac oedolion sydd mewn perygl.
- Nododd arolwg a gafodd ei gynnal gydag ystod eang o weithwyr proffesiynol fod yr Hwb wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddiogelu yng Nghwm Taf.

PA WELLIANNAU SYDD ANGEN I NI'U GWNEUD?

Yn 2017/18, byddwn ni'n:

- 2.4. Cwblhau'r adolygiad o'r prosesau diogelu plant a'r trothwyon ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru
- 2.5. Sicrhau bod fframwaith rheoli cyflawniad cadarn ar waith ar gyfer yr Hwb sydd wedi'i alinio i waith Is-grŵp Sicrhau Ansawdd y Bwrdd.
- 2.6. Sicrhau bod llwyfan rhannu data'r Hwb (Mhub) yn parhau i gefnogi'r broses diogelu
- 2.7. Sicrhau bod darpariaeth yr Hwb yn parhau i fod yn addas i'r diben
- 2.8. Adolygu trefn llywodraethu gwasanaeth cam-drin domestig MARAC ar y cyd â Grŵp Llywio VAWDASV

⁶ Mae Awdurdodau Lleol Cymru a sefydliadau GIG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth tuag at ateb electronig - System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) - a fydd yn galluogi rhannu gwybodaeth yn ddiogel a helpu i ddarparu gofal a chymorth gwell ar gyfer pobl ar draws Cymru.

3. HYFFORDDIANT A DYSGU:

BWRIAD YN Y PEN DRAW:

Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod hyfforddiant diogelu rhyngasiantaeth a lledaenu dysgu ac ymchwil yn cael eu defnyddio i gefnogi gweithlu amlasiantaeth mwy hyderus a gwybodus.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU?

Dylai'r Bwrdd sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu'n eang ag asiantaethau partner i hysbysu staff o'r arferion gorau a'r dysgu sy'n deillio o adolygiadau, archwiliadau a gweithgareddau Bwrdd eraill.

Dylai'r Bwrdd hefyd sicrhau bod ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant (neu eu bod nhw â mynediad iddo) sydd ei angen arnyn nhw o ran amddiffyn plant ac atal cam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o gam-drin.

Mae deall natur a maint y cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed ac effeithiolrwydd y gwasanaethau i atal niwed a diogelu plant rhag niwed yn bwysig. Felly dylai'r Bwrdd Diogelu ddarparu ar gyfer ymchwil ac astudiaethau gwerthuso un ai drwy ymgymryd ag astudiaethau ar raddfa fach (neu'u comisiynu), neu drwy gydweithio ag asiantaethau (ac annog asiantaethau i gydweithio) i gynnal astudiaethau yn lleol neu'n genedlaethol.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

- Yn 2016/17 sefydlodd y Bwrdd yr Is-grŵp Hyfforddiant a Dysgu oedolion a phlant ar y cyd newydd (TALG).
- Mae Calendr Hyfforddiant Diogelu Plant wedi cael ei baratoi ac mae themâu o archwiliadau ac adolygiadau yn cael eu coladu i lywio digwyddiadau hyfforddiant a dysgu yn y dyfodol.

PA WELLIANNAU SYDD ANGEN I NI'U GWNEUD?

Yn 2017/18, byddwn ni'n:

- 3.1. Cytuno ar ddull o fynd ati i ymchwilio i ddiogelu a gwneud gwell defnydd o staff ac asiantaethau academaidd i gynnal yr ymchwil yma.
- 3.2. Ymdrin ag unrhyw fylchau yn narpariaeth yr hyfforddiant diogelu gan gynnwys atal hunanladdiad a hunan-niwed, trais domestig (mewn partneriaeth â Grŵp Llywio VAWDASV) a hyfforddiant ar y gweithdrefnau amddiffyn plant cenedlaethol newydd.
- 3.3. Nodi unrhyw fframweithiau hyfforddiant perthnasol eraill sydd ddim yn rhan o'r Bwrdd a sefydlu'r cysylltiadau perthnasol.
- 3.4. Datblygu rhaglen o Ddigwyddiadau Ymarferwyr Amlasiantaeth er mwyn rhannu dysgu sy'n deillio o archwiliadau ac adolygiadau â chynulleidfa eang o ymarferwyr sy'n ymwneud â diogelu.

- 3.5. Cyfrannu at ailysgrifennu canllawiau PRUDIC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod)⁷ i sicrhau bod yna ymateb diogel, cyson a sensitif i farwolaethau annisgwyl mewn babandod a phlentyndod.
- 3.6. Cynyddu'r gronfa o bobl sydd â'r sgiliau priodol sy'n gallu cynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ar ran y Bwrdd

4. CYDWEITHREDU

BWRIAD YN Y PEN DRAW:

Mae'r Bwrdd yn mynd ati i ddilyn cyfleoedd i weithio gydag asiantaethau, partneriaethau a byrddau eraill sy'n cefnogi'i amcanion.

BETH MAE HYN YN EI OLYGU?

Mae cydweithio effeithiol a gweithio amlasiantaeth yn rhagofynion i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd.

Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

- Yn lleol, mae cyfleoedd i integreiddio mesurau diogelu gyda ffocws 'pob oed' wedi deillio o gydweithrediad y Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion.
- Mae'r adroddiadau pwysicaf yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac o fewn strwythurau rheoli asiantaethau unigol.
- Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu gyda Phartneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf ac rydyn ni wedi dechrau cydweithio eisoes drwy'r broses Adolygu Dynladdiad Domestig.
- Yn genedlaethol, mae'r Bwrdd wedi sefydlu perthynas waith dda gyda'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.
- Mae cysylltiadau agos wedi'u sefydlu gyda Llywodraeth Cymru trwy'r Grwpiau Cymru Gyfan a rhwydwaith Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu.
- Mae cydweithrediad y Byrddau Diogelu wedi bod yn allweddol wrth gynnal adolygiadau ymarfer oedolion.

PA WELLIANNAU SYDD ANGEN I NI'U GWNEUD?

Yn 2017/18, byddwn ni'n:

- 4.1. Parhau i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu perthnasau gweithio cadarn gyda phartneriaethau eraill
- 4.2. Parhau i gydweithio gyda Byrddau Diogelu eraill i wella trefniadau diogelu yn genedlaethol.

EIN HADNODDAU AR GYFER 2017/18

Bydd Byrddau Diogelu Cwm Taf ar gyfer plant ac oedolion â chyllideb gytunedig ar waith i gefnogi'r ddau Fwrdd yn 2017/18. Bydd y Rheolwr Busnes ar gyfer y Byrddau yn rheoli'r gyllideb yma o fewn y rheoliadau ariannol sydd wedi cael eu pennu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef y Partner Arweiniol ar gyfer y Byrddau.

⁷ Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentyndod.

Mae'r Byrddau yn cael eu hariannu ar y cyd gan y partneriaid statudol h.y. awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Heddlu De Cymru a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Mae'r cyfraniadau yn cael eu rhannu yn unol â'r arweiniad sydd wedi'i gyhoeddi o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu i'r Uned Busnes Diogelu yn cael eu defnyddio yn unol â gofynion y Ddeddf fel bydd rhwydweithiau effeithiol i gefnogi gwaith y Byrddau. Bydd yr holl adnoddau yn cyfrannu at wireddu'n canlyniadau pwysicaf fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Blynyddol yma.

RHOI GWYBOD AM BRYDERON

Os ydych chi'n amau bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei niweidio, neu mewn perygl o gael ei niweidio, mae dyletswydd arnoch chi i roi gwybod amdano **ar unwaith**. Mae pob galwad sy'n mynegi pryder am blentyn yn cael ei drin o ddifrif. Ffoniwch eich Carfan Diogelu leol ar y rhifau isod:

Ar gyfer Aelodau o'r Cyhoedd:
Rhondda Cynon Taf: 01443 425006
Merthyr Tudful: 01685 725000

Oriau agor:
Llun – Iau: 8.30am – 5pm
Gwener: 8.30am – 4.30pm

Dylai gweithwyr proffesiynol ffonio'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth:
Rhondda Cynon Taf: 01443 742928
Merthyr Tudful: 01685 743619

Argyfwng y tu allan i oriau'r swyddfa (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful):
I gysylltu â'r Gwasanaethau i Blant y tu allan i oriau'r swyddfa, dros y penwythnos ac ar wyliau banc, ffoniwch **Garfan ar Ddyletswydd Cwm Taf ar gyfer Argyfyngau ar 01443 743665**.

Os ydych chi'n amau bod plentyn neu berson ifanc mewn **perygl uniongyrchol o niwed**, ffoniwch **999** a siarad â'r **Heddlu**.

Os bydd yn dod i'r amlwg bod plentyn yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o niwed sylweddol, bydd gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'r teulu i sicrhau bod modd diogelu'r plentyn.

Os ydych chi eisiau rhoi gwybod am ddigwyddiad lle nad oes angen ymateb ar frys, neu os oes problem neu gwestiwn gyda chi, ffoniwch 101, sef rhif di-argyfwng 24 awr yr Heddlu.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: www.cwmtafsafeguarding.org neu, anfonwch e-bost: diogelucwmtaf@rctcbc.gov.uk